Archwilio Cymru
Audit Wales

# Rheoli Gwastraff – Cyngor Caerdydd


Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3205A2022

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Caerdydd fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor gyfraddau ailgylchu gwael ac mae angen iddo weithredu ar frys i wella'i berfformiad ailgylchu.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor gyfraddau ailgylchu gwael ac mae angen iddo weithredu ar frys i wella'i berfformiad ailgylchu 7

Er bod y modd y rheolir y gwasanaeth wedi gwella, mae cyfraddau ailgylchu'n dal i fod yn wael ac yn sylweddol is na'r targedau statudol 7

Nid yw'r Cyngor wedi rhoi strategaeth ar waith eto i wella'i berfformiad ailgylchu 8

Nid yw'r Cyngor wedi nodi'n llawn pa adnoddau y mae eu hangen i roi ei strategaeth ailgylchu ar waith nac wedi amlinellu a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â'i rhoi ar waith 9

Nid yw'r Cyngor wedi datblygu strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu eto i wella'r modd y mae'n ymgysylltu â thrigolion ac i lywio perfformiad gwell 10

Mae tai amlfeddiannaeth a gwastraff masnach yn dal i fod yn heriau allweddol i'r Cyngor eu datrys er mwyn gwella'i berfformiad ailgylchu 11

Nid yw'r Cyngor wedi datblygu cyfeiriad cwbl integredig a thymor hwy eto ar gyfer rheoli gwastraff 11


# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fel a ddangosir yn **Arddangosyn 1** isod, mae gan Gyngor Caerdydd (y Cyngor) hanes o berfformiad ailgylchu gwael gan fethu â chyrraedd targedau ailgylchu statudol Cymru.

**Arddangosyn 1: perfformiad ailgylchu Cyngor Caerdydd**




Ffynhonnell: StatsCymru

2 Ym mis Mawrth 2020, fe wnaethom gwblhau adolygiad o gynlluniau'r Cyngor i leihau gwastraff a chyrraedd y targedau ailgylchu cenedlaethol. Canfuom fod ffocws angenrheidiol y Cyngor ar ddatrys rhai materion gweithredol hirsefydlog yn golygu nad oedd yn gallu gwella perfformiad ailgylchu. Nid oedd ond ar gam cynnar iawn yn y broses o benderfynu beth fyddai ei gyfeiriad yn y dyfodol o ran ei weithgareddau ailgylchu, sut y byddai'n cyrraedd yno a faint allai ei gostio.

3 Fel a nodwyd yn ein cynllun archwilio ar gyfer 2021, rydym wedi cynnal adolygiad pellach i ystyried sut y mae'r Cyngor yn bwriadu lleihau gwastraff a gwella'i berfformiad ailgylchu. Fe wnaethom gwblhau ein gwaith maes rhwng mis Mawrth a mis Mai 2022.

4 Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targedau hirdymor ar gyfer ailgylchu ac ailddefnyddio gwastraff trefol. Gall Llywodraeth Cymru godi cosbau ariannol am

beidio â chydymffurfio. 64% oedd y targed ar gyfer 2019-20 a 70% yw'r targed ar gyfer 2024-25. 58.1% oedd perfformiad y Cyngor yn 2019-20, gyda dirywiad mewn perfformiad yn 2020-21 i 55.8%. Y Cyngor sydd â'r perfformiad ailgylchu isaf yng Nghymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod perfformiad ailgylchu'r Cyngor yn well na dinasoedd tebyg yn Lloegr.

## Yr hyn a ganfuom

5 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A oes gan y Cyngor gynlluniau cadarn i wella'i wasanaeth rheoli gwastraff a chyflawni ei rwymedigaethau statudol?

6 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: mae gan y Cyngor gyfraddau ailgylchu gwael ac mae angen iddo weithredu ar frys i wella'i berfformiad ailgylchu. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- er bod y modd y rheolir y gwasanaeth wedi gwella, mae cyfraddau ailgylchu'n dal i fod yn wael ac yn sylweddol is na'r targedau statudol;
- nid yw'r Cyngor wedi rhoi strategaeth ar waith eto i wella'i berfformiad ailgylchu;
- nid yw'r Cyngor wedi nodi'n llawn pa adnoddau y mae eu hangen i roi ei strategaeth ailgylchu ar waith nac wedi amlinellu a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â'i rhoi ar waith; ac
- nid yw'r Cyngor wedi datblygu cyfeiriad cwbl integredig a thymor hwy eto ar gyfer rheoli gwastraff.

## Argymhellion

**Arddangosyn 2: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Cyngor roi strategaeth ar waith i ddwyn gwelliant sylweddol o ran y modd y mae'n darparu gwasanaethau a chynyddu ei gyfradd ailgylchu fel mater o frys. |
| A2 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn dyrannu'r adnoddau y bydd eu hangen arno i roi ei strategaeth ailgylchu ar waith yn ei gynlluniau ariannol. |

**Argymhellion**

| | |
|---|---|
| A3 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn deall y risgiau sy'n gysylltiedig â rhoi'r strategaeth ailgylchu ar waith a'i fod yn cymryd camau gweithredu priodol i liniaru'r risgiau hynny. Dylai hyn gynnwys datblygu strategaeth ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu gyda thrigolion a threfniadau llywodraethu a goruchwylio effeithiol gyda chynghorwyr ac uwch swyddogion. |
| A4 | Rhaid i'r Cyngor barhau i ddatblygu dull integredig a thymor hwy o reoli gwastraff. Dylai hyn ystyried:<br>• datblygiadau polisi gan Lywodraeth Cymru ar wastraff ac economi gylchol;<br>• nodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach sy'n ategu amcanion ehangach y Cyngor;<br>• lleihau gwastraff ac atal gwastraff; a hefyd<br>• yr egwyddor datblygu cynaliadwy, gan gynnwys mynd ati i gynnwys ei gymunedau a chryfhau integreiddio â chynlluniau a pholisïau eraill. |
| A5 | Dylai'r Cyngor barhau i archwilio sut y mae sefydliadau eraill yn cyflawni deilliannau ailgylchu gwell a defnyddio'r wybodaeth hon i wella'i berfformiad ei hun a llunio'i strategaeth gwastraff ar gyfer y tymor hwy. |

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor gyfraddau ailgylchu gwael ac mae angen iddo weithredu ar frys i wella'i berfformiad ailgylchu

### Er bod y modd y rheolir y gwasanaeth wedi gwella, mae cyfraddau ailgylchu'n dal i fod yn wael ac yn sylweddol is na'r targedau statudol

7 Mae ffocws y Cyngor wedi bod ar fynd i'r afael â chyfres o faterion gweithredol hirsefydlog. Mae'r rhain yn cynnwys patrwm o orwariannau ac arbedion heb eu gwireddu, materion iechyd a diogelwch, cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch uchel, perthnasoedd diwydiannol anodd, a rheolaethau rheoli a busnes nad oeddent yn eu lle neu nad oedd pobl yn ymlynu wrthynt.


8 Rydym yn cydnabod bod y Cyngor wedi gwneud gwelliannau i'r modd y rheolir y gwasanaeth. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys:

- dealltwriaeth well o lawer am gostau a pherfformiad ar draws y gwasanaeth;
- defnydd mwy effeithiol o ddata;
- cyflwyno patrwm gweithio newydd ar gyfer casgliadau gwastraff; a
- gwelliannau parhaus i'r amgylchedd rheolaeth ar y cyfan i fynd i'r afael ag argymhellion a wnaed gan y tîm Archwilio Mewnol yn dilyn cyfres o farnau archwilio anffafriol.

9 Fodd bynnag, nid yw'r gwelliannau hynny i'r modd y rheolir y gwasanaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau ailgylchu'r Cyngor eto. Mae gan y Cyngor bellter sylweddol i'w deithio ac amser cyfyngedig ar gael os yw'n mynd i gyrraedd y targed ailgylchu statudol o 70% erbyn 2024-25. Mae peidio â chyrraedd y targed yn rhoi'r Cyngor mewn perygl o gael cosbau ariannol gan Lywodraeth Cymru.

10 Mae **Arddangosyn 3** isod yn dangos bod gwariant y Cyngor ar wastraff am bob trigolyn wedi bod yn gyson yn is na chyfartaledd Cymru. Mae perfformiad ailgylchu'r Cyngor wedi bod islaw cyfartaledd Cymru hefyd.

**Arddangosyn 3: gwariant refeniw net ar wastraff am bob trigolyn**




| | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Caerdydd | 57.75 | 64.4 | 67.57 | 66.21 | 74.5 | 76.32 | 67.36 | 62.11 | 64.58 | 69.25 | 74.65 | 73.74 | 74.84 |
| Cymru | 68.4 | 74.8 | 78.5 | 77.9 | 81.5 | 80.6 | 78.9 | 75.4 | 77.7 | 77.1 | 80.4 | 82.5 | 86.7 |

## Nid yw'r Cyngor wedi rhoi strategaeth ar waith eto i wella'i berfformiad ailgylchu

11 Mae ein cyfweliadau'n amlygu bod swyddogion y Cyngor yn deall y bydd angen i'r Cyngor newid ei ddull o ymdrin ag ailgylchu os yw'n gobeithio cyrraedd y targed ailgylchu statudol o 70% erbyn 2025. Mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth ailgylchu ddrafft ar gyfer y cyfnod hyd at 2025. Cynllun byrdymor yw hwn, sy'n disgrifio sut y gallai'r Cyngor gyrraedd y targed statudol.

12 Bydd cyrraedd y targed ailgylchu o 70% erbyn 2024-25 yn creu heriau sylweddol i'r Cyngor. Fel yr ydym yn ei nodi yn y paragraffau isod, mae gan y Cyngor waith sylweddol i'w wneud i roi ei strategaeth ar waith. Mae rhoi'r strategaeth ar waith yn golygu gweithio o fewn graddfeydd amser tynn. Nid yw cynlluniau'r Cyngor yn cynnwys rhyw lawer o fesurau wrth gefn i amsugno unrhyw faterion nas rhagwelwyd. Ceir risg uchel efallai na fydd y Cyngor yn cyrraedd y targed ailgylchu statudol.

13 I gynyddu i'r eithaf ei siawns o lwyddo, bydd angen i'r Cyngor weithio'n gyflym i:

- gytuno ar ei strategaeth ailgylchu a sicrhau bod perchnogaeth arni gan yr aelodau;
- cryfhau trefniadau llywodraethu a goruchwylio;
- nodi costau rhoi'r strategaeth ailgylchu ar waith a chynnwys y rhain yn ei gynlluniau ariannol;
- datblygu cynllun cyfathrebu i gynnwys trigolion yn y newidiadau; a
- mynd i'r afael â heriau penodol i wella perfformiad ailgylchu ymhlith tai amlfeddiannaeth a busnesau.

14 Rydym yn ymhelaethu ar bob un o'r rhain yn y paragraffau isod.

## Nid oes trefniadau cryf ar hyn o bryd ar gyfer llywodraethu a monitro gan aelodau i lywio gwelliant

15 Ar adeg ein gwaith maes, nid oedd gan y Cyngor strategaeth ailgylchu y cytunwyd arni i wella'i berfformiad ailgylchu. Roedd y strategaeth ddrafft wedi'i chyhoeddi ar

gyfer ymgynghori â'r cyhoedd. Mae'r Cabinet i fod i ystyried y strategaeth ddrafft yn fuan.

16 Mae'n hollbwysig bod gan aelodau berchnogaeth ar strategaeth ailgylchu'r Cyngor er mwyn iddo gynyddu ei berfformiad ailgylchu. Mae gan aelodau rôl allweddol yn eu cymunedau i fynd ati hefyd i annog trigolion i leihau swm y gwastraff gweddillol a gwella arferion ailgylchu.

17 Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) a bellach mae ganddo ddealltwriaeth fanwl am wastraff yn y ddinas a ble y mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio'i ymdrechion. Mae'r ddau barti'n ystyried bod perthynas y Cyngor â WRAP yn gadarnhaol ac yn adeiladol. Dylai hyn helpu'r Cyngor i roi dull gwell ar waith lle mae ailgylchu yn y cwestiwn.

18 Mae gan y Cyngor rai trefniadau llywodraethu, megis cyfarfodydd misol gyda Rheolwyr Gweithredol a chyfarfodydd rheolaidd rhwng WRAP a'r Cyngor. Mae rheoli gwastraff wedi'i gynnwys fel risg ar gofrestr risgiau corfforaethol y Cyngor. Mae'r Cabinet, a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn ystyried y gofrestr risgiau'n rheolaidd. Mae'r Cyngor hefyd yn cwrdd yn rheolaidd â'r Gweinidog yn Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau llywodraethu'n cynnwys bwrdd rheoli rhaglen â chynrychiolaeth o blith aelodau etholedig, uwch swyddogion a WRAP, fel sydd wedi bod yn digwydd gyda chynghorau eraill y mae WRAP wedi gweithio gyda hwy. O ystyried yr angen dybryd i wella'i berfformiad ailgylchu, mae angen i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau llywodraethu a goruchwylio ar lefel uwch swyddogion ac aelodau. Byddai hyn yn sicrhau bod cynnydd o ran rhoi'r strategaeth ailgylchu ar waith yn cael ei fonitro a'i herio'n gadarn.

## Nid yw'r Cyngor wedi nodi'n llawn pa adnoddau y mae eu hangen i roi ei strategaeth ailgylchu ar waith nac wedi amlinellu a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â'i rhoi ar waith

19 Ceir risgiau sylweddol i roi strategaeth ailgylchu'r Cyngor ar waith. Rydym yn amlinellu rhai o'r rhain yn y paragraffau isod.

20 Nid yw'r Cyngor wedi nodi'n llawn eto beth fydd costau posibl rhoi ei strategaeth ailgylchu ddrafft ar waith, sy'n amlwg yn allweddol i'w rhoi ar waith. Mae'r Cyngor wedi dechrau cynllunio ar gyfer y newidiadau ac mae wedi gwneud darpariaeth yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer cerbydau casglu gwastraff newydd. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi disgrifio'r costau hyn yn eglur i ddarparu gwybodaeth well ar gyfer prosesau penderfynu'r aelodau. Bydd hyn yn arbennig o bwysig o ystyried yr heriau ariannol ehangach a wynebir gan y Cyngor a'r bwlch o £90 miliwn a amcangyfrifir yn ei gyllideb dros y pedair blynedd nesaf.

21 Mae nifer o newidiadau a heriau sylweddol o ran seilwaith sy'n gysylltiedig â rhoi strategaeth ailgylchu'r Cyngor ar waith. I roi model ailgylchu sy'n seiliedig ar wahanu'n dair ffrwd ar waith, bydd angen iddo gaffael cerbydau gwahanol i'w gwneud yn bosibl casglu deunyddiau ailgylchadwy ar wahân. Mae materion o ran y gadwyn gyflenwi'n effeithio ar lawer o nwyddau, gan gynnwys cerbydau modur. Gallai hyn achosi oedi pellach a threuliau uwch wrth i'r Cyngor geisio adnewyddu ei fflyd bresennol. Nid yw'r strategaeth ddrafft yn cynnwys mesurau wrth gefn ar gyfer oedi o'r fath.

22 Mae'r Cyngor, gan gael ei gynghori gan WRAP, wedi nodi bod rheoliadau tân yn golygu na ellir addasu'r Cyfleuster Adfer Deunyddiau (CAD) presennol yn Ffordd Lamby i ddefnyddio'r model ailgylchu sy'n seiliedig ar wahanu deunyddiau gan bod ôl troed y safle'n rhy fach. Rydym yn deall bod y Cyngor yn hyderus y gall leddfu'r sefyllfa yn y tymor byr nes gellir canfod a datblygu safle yn ei le. Fodd bynnag, mae'r heriau hyn yn enghreifftio'r mathau o faterion a allai effeithio ar gynlluniau'r Cyngor. Maent hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd trefniadau cadarn ar gyfer goruchwylio a rheoli'r rhaglen.

## Nid yw'r Cyngor wedi datblygu strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu eto i wella'r modd y mae'n ymgysylltu â thrigolion ac i lywio perfformiad gwell

23 Nid oes gan y Cyngor strategaeth ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â thrigolion i gefnogi cyfraddau ailgylchu gwell. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn mynd ati ar frys i ddatblygu cynllun i roi cymorth i bontio i'r newidiadau i'r gwasanaeth y mae eu hangen. Heb strategaeth gyfathrebu, mae'r Cyngor yn annhebygol o wireddu ei uchelgais i wella'i berfformiad ailgylchu.

24 Mae ymchwiliad y pwyllgor craffu Amgylcheddol ym mis Mawrth 2022 i'r Cynllun Datblygu Lleol[1] yn awgrymu y gallai'r Cyngor wneud mwy i gynnwys trigolion pan fo'n gwneud penderfyniadau arwyddocaol. Roedd hyn yn cynnwys mynd ati i gynnwys y bobl hynny sy'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth. Mae cyrraedd y targedau ailgylchu'n debygol o olygu newid sylweddol i'r ffordd y caiff gwastraff ei gasglu. Bydd angen i'r Cyngor ystyried yn ofalus sut y mae'n cyfleu'r newidiadau hynny i drigolion. Bydd angen i'r cynllun cyfathrebu fod yn glir ynglŷn â beth yw'r newidiadau a phryd y byddant yn digwydd. Bydd angen i'r Cyngor nodi sut y bydd yn sicrhau bod cyfathrebu effeithiol yn digwydd gyda phob rhan o'r gymuned i ategu cyfraddau ailgylchu gwell.

25 Mae'r Cyngor wedi treialu model ailgylchu sy'n seiliedig ar wahanu'n dair ffrwd mewn ardaloedd penodol yn y ddinas. Rydym yn deall, yn amodol ar benderfyniad gan y Cabinet ynglŷn â'r strategaeth ailgylchu ddrafft, bod y Cyngor yn bwriadu cyflwyno'r cynllun peilot ledled y ddinas. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi nodi logisteg ac amseriad hyn eto. O ystyried y graddfeydd amser tynn, bydd angen i'r Cyngor benderfynu sut y bydd yn ystyried yr adborth gan drigolion ar wahanu gwastraff fel bod hyn yn gallu helpu i lunio'r modd y rhoddir y strategaeth ar waith.

26 Mae'r strategaeth ddrafft yn nodi bod y Cyngor yn bwriadu adolygu ei drefniadau ar gyfer gwastraff gweddillol. Mae'r gwaith modelu y mae'r Cyngor wedi'i wneud gyda WRAP yn dangos na fydd ailgylchu deunyddiau wedi'u gwahanu yn unig yn ddigon i'r Cyngor gyrraedd y targed ailgylchu o 70%. Felly, er mwyn cyrraedd y targed statudol, mae'n debygol y bydd angen i'r Cyngor leihau a/neu gyfyngu ar swm y gwastraff gweddillol y mae trigolion yn ei gyflwyno i'w gasglu. Mae cynghorau eraill, megis Casnewydd, Wrecsam, Pen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe wedi gwneud newidiadau i'w casgliadau gwastraff gweddillol ac wedi gweld gwelliannau i'w perfformiad ailgylchu wedi hynny.

[1] Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol at y Cyngh. Caro Wild ar y Cynllun Datblygu Lleol, Mawrth 2022.

27 Byddai unrhyw gyfyngiadau o'r fath ar gasgliadau gwastraff gweddillol yn newid sylweddol i wasanaethau ar gyfer trigolion. Ni chafodd newidiadau i wastraff gweddillol eu hymgorffori yn y cynllun peilot ailgylchu. Felly, nid yw'r Cyngor wedi profi'r effaith y gallai hynny ei chael ar gyfraddau ailgylchu, nac ar farn ac ymddygiad y cyhoedd. Dylai'r Cyngor gadarnhau ei gynlluniau ar gyfer ailgylchu a gwastraff gweddillol a'u cyfleu i drigolion cyn gynted â phosibl. Heb gynllun cyfathrebu effeithiol, mae'r Cyngor yn annhebygol o wireddu ei uchelgais i gyrraedd y targed ailgylchu o 70%.

## Mae tai amlfeddiannaeth a gwastraff masnach yn dal i fod yn heriau allweddol i'r Cyngor eu datrys er mwyn gwella'i berfformiad ailgylchu

28 Mae fflatiau a thai amlfeddiannaeth yn creu heriau ar gyfer ailgylchu gan aelwydydd. Mae gan Gaerdydd gyfran fwy o'r mathau hyn o dai na chynghorau eraill yng Nghymru. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd angen iddo fynd i'r afael â'r her yma er mwyn gwella'i gyfraddau ailgylchu. Fodd bynnag, nid yw wedi nodi datrysiad cynhwysfawr i hyn eto. Mae'r Cyngor yn y camau cynnar o ran gwneud gwaith ar y cyd gyda chynghorau Abertawe a Chasnewydd i ystyried datrysiadau posibl. Mae hefyd yn rhoi newidiadau ar raddfa fach ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys gwneud newidiadau i faint yr agoriadau mewn biniau cymunol i geisio lleihau i'r eithaf yr achosion o halogi.

29 Yn seiliedig ar waith modelu a wnaed gyda WRAP, bydd angen i'r Cyngor hefyd wneud newidiadau i'w wasanaeth casglu gwastraff masnach os yw'n mynd i gyrraedd y targed ailgylchu o 70%. Caiff cyfraddau ailgylchu gwastraff masnach eu cynnwys ym mherfformiad ailgylchu'r Cyngor ar y cyfan. Gan bod cyfran y gwastraff masnach yn llai nag ar gyfer aelwydydd, mae hyn yn cael effaith o ran gostwng ffigwr ailgylchu'r Cyngor ar y cyfan. Mae'r ddeddfwriaeth ar gyfer gwastraff masnach yn mynd i fod yn newid yn 2023. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau masnachol gyflwyno deunyddiau i'w hailgylchu mewn ffrydiau ar wahân. Cyn y newid i'r ddeddfwriaeth, mae'r Cyngor yn annog cwsmeriaid masnachol i ddechrau ailgylchu ac mae wedi rhoi'r gorau i ymrwymo i gontractau ar gyfer gwastraff gweddillol yn unig.

## Nid yw'r Cyngor wedi datblygu cyfeiriad cwbl integredig a thymor hwy eto ar gyfer rheoli gwastraff

30 Gan bod y Cyngor wedi bod yn canolbwyntio ar reoli materion gweithredol mewn gwasanaethau ac effeithiau'r pandemig ar y gwasanaeth, bu ganddo lai o ffocws ar gyfeiriad strategol tymor hwy'r gwasanaeth. O ganlyniad, mae syniadau'r Cyngor ar gyfer y tymor hwy'n dal heb ddatblygu digon. Gallai hyn effeithio'n andwyol ar ei ddull ehangach o ymdrin â newid hinsawdd a nodir yn ei strategaeth Un Blaned.

31 Ym mis Mawrth 2021, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Mwy Nag Ailgylchu'[2], ei strategaeth ar gyfer yr economi gylchol yng Nghymru. Nid yw'r Cyngor wedi datblygu ei ddull mewn ymateb i'r strategaeth hon a datblygiadau polisi mwy diweddar gan Lywodraeth Cymru ar wastraff a'r economi gylchol yn llawn eto. Nid

[2] strategaeth-mwy-nag-ailgylchu.pdf (llyw.cymru)

yw'r Cyngor wedi cynllunio a newid ei ffocws y tu hwnt i gyrraedd y targedau ailgylchu statudol i ystyried sut y gall ei ddull o ymdrin â gwastraff helpu i leihau allyriadau carbon eto.

32 Dylai'r Cyngor ystyried ac adeiladu ar beth o waith cadarnhaol y Cyngor gyda Benthyg Cymru[3] a Chaffi Trwsio Cymru.[4] Dylai adlewyrchu nodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach sy'n ategu amcanion ehangach y Cyngor.

33 Wrth i'r Cyngor ddatblygu ei gyfeiriad strategol ehangach ar gyfer rheoli gwastraff, dylai sicrhau ei fod yn cael ei danategu gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Er enghraifft:

- nid yw'r Cyngor wedi sicrhau eto bod ei ddull hirdymor o reoli gwastraff yn gyson â'i strategaeth ddatgarboneiddio (Caerdydd Un Blaned[5]). Ar hyn o bryd, nid yw ei dîm datgarboneiddio a'i wasanaeth rheoli gwastraff yn gweithio'n llawn mewn ffordd integredig.
- er bod gan y Cyngor swyddog y mae ei rôl yn cynnwys edrych ar geisiadau cynllunio i ystyried y goblygiadau ar gyfer casgliadau gwastraff, nid yw'r gwasanaethau cynllunio a rheoli gwastraff yn gweithio mewn ffordd integredig. Mae hyn yn allweddol i sicrhau bod datblygiadau tai yn y dyfodol yn rhoi anogaeth i ailddefnyddio ac ailgylchu mwy. Byddai hyn hefyd yn helpu i sicrhau nad yw heriau presennol sy'n gysylltiedig â fflatiau, tai amlfeddiannaeth a thai dwysedd uchel yn cael eu bytholi.
- bydd cynnwys cymunedau'n allweddol i symud ymlaen gyda mentrau atal a lleihau gwastraff.

34 Mae'r Cyngor wedi chwilio'r tu allan i Gymru am arfer da, er enghraifft dulliau o ailgylchu mewn fflatiau yn Llundain. Byddem yn annog y Cyngor yn gryf i barhau i chwilio am arfer da, gan gynnwys y tu allan i'r DU. Efallai na fydd un patrwm y gellir ei fabwysiadu'n llwyddiannus yn ei gyfanrwydd yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, efallai y bydd syniadau neu arferion arloesol y gallai'r Cyngor eu hymgorffori yn ei ddull.

[3] www.benthyg-cymru.org/

[4] repaircafewales.org/

[5] Ein gweledigaeth ar gyfer dinas Carbon Niwtral erbyn 2030, Caerdydd Un Blaned

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.